

bicio i mewn am gyfnod, hyd yn oed os mai ychydig funudau fydd hynny.

Daw rhagor o fanylion eto, yn nes at y diwrnod ei hun.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Chwefror 15: Gwasanaethir yn yr Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch a'r Oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Chwefror 10: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Fawrth, Chwefror 10: Cyfarfod y Gymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch.
Dydd Sul, Chwefror 15: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheili. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Megan Williams, Porthaethwy.

REHOBOTH

Dydd Sul, Chwefror 15: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Nos Fercher, Chwefror 11: Swper Gŵyl Ddewi Capel Bethlehem yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 15: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a bydd yr oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Dafydd Ll. Hughes, Caernarfon.

CARMEL

Dydd Llun, Chwefror 9: Y Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Chwefror 13: Cynhelir 'Dwylo Prysor' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 15: Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Canon Idris Thomas, Deiniolen..

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Chwefror 13: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

Chwefror 15

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 22

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd C Williams

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Chwefror 15

10.00 a.m. - Y Parchg W R Williams
11.15 a.m. - DIM YSGOL SUL
Gwyliau Hanner Tymor
5.00 p.m. - Y Parchg Megan Williams

Chwefror 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 624 Dydd Sul, 08 Chwefror, 2015

Y difreintiedig

Darllenais y dydd o'r blaen erthygl am ddylanwad eu hathrawon ysgol ar ddau actor adnabyddus. Yr actor diweddaraf i bortreadu Sherlock Holmes ar y BBC oedd un, sef Benedict Cumberbatch. Rhaid i mi gyfaddef nad oeddwn i mor gyfarwydd â'r llall, ond fy niffyg gywbonaeth am fyd y ffilmiau sy'n gyfrifol am hynny. Bydd rhai ohonoch yn gwybod yn union pwy yw Eddie Redmayne hefyd.

Tynnu sylw oedd yr erthygl at y ffaith mai cynnyrch ysgolion bonedd Lloegr yw'r ddau actor hyn ynghyd ac amryw o actorion poblogaidd eraill a welwn ar y teledu ac mewn ffilmiau heddiw. Addysgwyd Cumberbatch yn Harrow a Redmayne yn Eton. Nid yw'n syndod bod yr ysgolion hyn wedi cynhyrchu actorion o fri o gofio bod gan Harrow er enghraifft theatr foethus newydd sbon ar gyfer cynulleidfa o 350 o bobl yn nyddiau ysgol Cumberbatch. Mae'r holl adnoddau drud yr ysgolion hyn mewn pob math o feysydd yn help mawr i'w myfyrwyr arfer eu crefft ym mha faes bynnag a ddewisant.

Yr hyn a'm trawodd oedd honiad yr athro drama yn Harrow bod cefndir breintiedig Cumberbatch ac eraill yn rhwystr iddynt yn eu gyrfa ddewisedig. Mae'n beryg, meddai, na chawn nhw eu hystyried ar gyfer rhannau penodol mewn rhaglenni a ffilmiau oherwydd eu cefndir. Ydi'ch calon yn gwaedu dros y bobl hyn tybed? Mae'n hawdd gwneud mor a mynydd o'r sylwadau

hyn, wrth gwrs, ond mae'n anodd iawn cydymdeimlo â'r ddadl bod disgyblion yr ysgolion bonedd hyn dan unrhyw anfantais o gwbl pan ddaw'n fater o sicrhau cyfleodd mewn unrhyw faes dan haul. Mae hyd yn oed awgrymu hynny'n swnio fel sen ar bobl sydd wirionedd dan anfantais

Oherwydd onid bod dan anfantais ydi bod yn dlawd, bod yn brin o fwyd, poeni am allu fforddio golau a gwres, bod mewn ysgol sy'n brin o adnoddau sylfaenol, bod heb ofal iechyd, byw mewn cymunedau heb adnoddau chwaraeon a theatrau a phob math o bethau sy'n rhoi profiadau cyfoethog ac amrywiol, bod yn ddi-waith a heb obaith o gwbl am gael swydd am nad oes swyddi i'w cael. Hyn a llawer mwy ydi bod dan anfantais

Ac y mae Duw yn galw arnom i fod o blaid y rhai sy'n dioddef felly. Daw'r proffwyd Amos, er enghraifft, â gair o gondemniad oddi wrth Dduw ar bobl Israel am anwybyddu a gormesu'r tlodion. Mae ganddo enghreifftiau o bethau penodol yr oeddent yn eu gwneud i'r tlodion a'r anghenus yn eu plith. Rhaid i bobl Dduw ym mhob oes gofio rhybudd y proffwyd a gwneud popeth a allant dros bobl felly. Onid yw awgrymu bod pobl freintiedig dan anfantais ynddo'i hun yn fath o orthrwm gan ei fod yn bychanu'r hyn a olygir wrth 'wir angen'? Ydi, mae rhybudd Amos rhag 'sathru'r anghenus a difa tlodion y wlad' yn berthnasol o hyd (Amos 8:4) i bobl yr Arglwydd.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch, ac yna cynhelir Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch, a gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon. Diolch iddo am ei wasanaeth unwaith eto.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, a chynhelir oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad rhai o chwirydd yr eglwys.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Mr Alun Roberts, 3 Pen Dinas, Tregarth a fu farw ddydd Llun diwethaf, Chwefror 2, yn 74 mlwydd oed. Roedd yn aelod yng nghapel Carmel, Llanllechid. Cynhelir ei angladd yn Amlogsgfa Bangor am 1.30 o'r gloch, ddydd Mawrth, Chwefror 10.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Gwenno a Dafydd Pritchard, 22 Nant y Glyn, Llanrug. Bu farw Sioned, mam Gwenno, yn ei chartref yn Llangefni ddydd Mawrth diwethaf. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd. Mae llawer ohonoch yn adnabod tad Gwenno, y Parchg Euros Jones, sydd wedi bod yn pregethu yng nghapeli'r Ofalaeth fwy nag unwaith.

Oedfa Sefydlu

Fel gwyddoch, mae'n debyg, mae'r Ofalaeth hon wedi ei hymestyn ers dechrau'r flwyddyn i gynnwys dwy eglwys Annibynnol arall. Caiff hynny ei nodi'n ffurfiol mewn oedfa arbennig a gynhelir yng nghapel Carmel, Llanllechid nos Sul, Mawrth 22.

Am 5.00 o'r gloch y noson honno, felly, cynhelir Oedfa Sefydlu'r Parchg John Pritchard yn weinidog i'r ddwy eglwys.

Estynnir croeso cynnes i aelodau'r ddwy eglwys i'r oedfa hon. Estynnir croeso hefyd i aelodau'r eglwys yn Llanberis a Deiniolen a Nant Peris i ymuno yn yr oedfa er mwyn nodi dechrau newydd yr

Ofalaeth estynedig. Bydd croeso hefyd wrth gwrs i gyfeillion yr eglwys a phawb a garai ddod yno i fod yn rhan o'r dathliad a'r addoliad.

Bore coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Chwefror 10 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Carmel

Brynhawn yfory, ddydd Llun, Chwefror 9, bydd 'Dosbarth Gwau yng Ngharmel, Llanllechid rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Chwefror 10. Y gŵr gwadd fydd Mr Keith Jones, Clwt y Bont. Bydd yn cyflwyno sgwrs ar thema'r 'Amgylchedd'. Estynnir croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

Swper Gŵyl Ddewi

Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi Bethlehem Talybont yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda, nos Fercher, Chwefror 11, am 7.00 o'r gloch.

Nant Padarn

Cynhelir cyfarfod ar gyfer aelodau Nant Padarn yng Nghapel Coch am 6.00 o'r gloch nos Lun, Chwefror 16. Rhowch wybod os nad yw'r dyddiad a'r amser yn gyfleus i chi os gwelwch yn dda.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn nhy Andrew Settatree, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Chwefror 13. Croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am ddod bob wythnos os nad yw'n hwylus.

Pwyllgor Efe

Ym Mhwyllgor Ymddiriedolwyr Efe yn Capel Coch nos Lun diwethaf, cawsom gwmni'r Parchg Gwyn Rhydderch a'r Parchg Peter James o Ymddiriedolaeth Trobwynt. Roedd y ddau'n awyddus iawn i ddiolch ar ran Trobwynt am ein parodwydd i rannu gwasanaeth Andrew Settatree, gweithiwr Efe, â hwy ers mis Mai diwethaf. Os cofiwch, cawsom gais i Andrew gynorthwyo Trobwynt yn ystod cyfnod absenoldeb mamolaeth gweithwraig Trobwynt. Mae Trobwynt wedi bod yn cyfrannu at gyflog Andrew ers mis Mai, ac Andrew yn rhannu ei amser rhwng y ddau fudiad gan weithio i Trobwynt o fore Mawrth hyd bawn iau ac i Efe weddill yr amser. Roedd y ddau'n diolch yn gynnes hefyd i Andrew am ei holl waith.

Adroddwyd bod Rachel Settatree, chwaer yng nghyfraith Andrew, wedi dychwelyd i'w gwaith yn rhan amser erbyn hyn wedi'r cyfnod mamolaeth. Ond gan fod Trobwynt yn awyddus i Andrew barhau i'w wasanaethu hyd ddiwedd mis Mai, sef hyd ddiwedd y flwyddyn bosibl y buom yn ei thrafod ar y dechrau, penderfynwyd parhau'r trefniant hwn hyd ddiwedd Mai.

Cwrs Ieuentid

Cynhelir Cwrs Ieuentid (11-16 oed) yng Ngholeg y Bala o nos Wener hyd ddydd Sul, Chwefror 20-22.

Dydd Gweddi Efe

Bydd Cynllun Efe yn cynnal Dydd Gweddi ganol mis Mawrth yng Nghapel y Rhos, Llanrug, ddydd Llun, Mawrth 16, rhwng 2.00 ac 8.00 o'r gloch.

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb yng ngwaith Efe i ddod yno pa bryd bynnag fydd yn hwylus yn ystod y pnawn a'r gyda'r nos. Nid oes rhaid i neb ddod am y cyfnod cyfan, ond bydd croeso i bobl